# Cydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau.  Mae hyn yn cynnwys cefnogi unigolion wrth iddynt baratoi ar gyfer cael eu trosglwyddo, gan gydlynu ag asiantaethau a gwasanaethau, ac yna cefnogi unigolion ac eraill tra byddant yn cael eu trosglwyddo.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun ac eraill wrth drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau
2. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion a’u gofynion trosglwyddo
3. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi pwrpas trosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau
4. gweithio mewn partneriaeth i gytuno ar sut mae paratoi ar gyfer trosglwyddiadau, a’u rhoi ar waith, yn unol â dewisiadau ac anghenion yr unigolyn, ynghyd ag amserlenni a gofynion asiantaethau a gwasanaethau
5. cefnogi unigolion i adnabod a chael gafael ar yr wybodaeth, yr adnoddau neu’r cymorth sydd eu hangen arnynt i drosglwyddo rhwng asiantaethau a gwasanaethau
6. adolygu neu gwblhau asesiadau risg ar gyfer trosglwyddiadau rhwng asiantaethau a gwasanaethau
7. cydlynu’r gwaith o drosglwyddo ag unigolion, asiantaethau a gwasanaethau
8. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi unigolion i drosglwyddo rhwng asiantaethau a gwasanaethau
9. annog a chefnogi annibyniaeth unigolion i baratoi ar gyfer a chymryd rhan mewn trosglwyddiadau rhwng asiantaethau a gwasanaethau
10. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau
11. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion, asiantaethau a gwasanaethau, a sut mae adolygu’r wybodaeth honno
2. sut mae adolygu neu gwblhau asesiadau risg ar gyfer trosglwyddiadau rhwng asiantaethau a gwasanaethau
3. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion â throsglwyddiadau rhwng asiantaethau a gwasanaethau
4. sut mae annog a chefnogi annibyniaeth unigolyn i baratoi ar gyfer a chymryd rhan mewn trosglwyddiadau rhwng asiantaethau a gwasanaethau
5. y mathau o wybodaeth, adnoddau a chymorth a allai helpu unigolion ac eraill yn ystod trosglwyddiadau rhwng asiantaethau a gwasanaethau, a sut i gael gafael arnynt
6. sut mae cefnogi niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol unigolion wrth drosglwyddo rhwng asiantaethau a gwasanaethau
7. dylanwad diwylliant a chefndir ar y gwaith o baratoi a chymryd rhan mewn trosglwyddiadau rhwng asiantaethau a gwasanaethau
8. pam mae angen i unigolion gael eu trosglwyddo rhwng asiantaethau a gwasanaethau a'r effaith y gall hyn ei chael
9. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion i drosglwyddo rhwng asiantaethau a gwasanaethau
10. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth drosglwyddo rhwng asiantaethau a gwasanaethau
11. sut mae cydlynu amserlenni a chwrdd â gwahanol ofynion asiantaethau a gwasanaethau mewn perthynas â throsglwyddiadau
12. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol wrth drosglwyddo rhwng asiantaethau a gwasanaethau
13. sut y gall newidiadau i ddewisiadau, amodau ac amgylchiadau unigolion effeithio ar drosglwyddiadau rhwng asiantaethau a gwasanaethau
14. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau
15. theorïau sy’n berthnasol i drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau
16. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a

gwasanaethau
17. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau
18. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth gydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau
19. sut mae ymateb i faterion a phryderon a allai godi wrth gydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau
20. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau, a sut i fynd i'r afael â hyn
21. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gydlynu’r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD331

Cydlynu'r gwaith o drosglwyddo unigolion rhwng asiantaethau a gwasanaethau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD331 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Trosglwyddo Unigolion, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |